

DOLEN Y TAB 105

6-7 Mai 2022

Oedfa Fore Sul 8 Mai am 11

Yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards a lestin Morris gydag Eleri'n cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF

Mai

- 15 Sul Cymorth Cristnogol
- 22 Y Parchedig Gethin Rhys
- 29 Geraint Rees

Hefyd ddydd Sul 8 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Iwan Llywelyn Jones, Porthmadog.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol - Dementia

Wrth nesáu at Wythnos Gweithredu Dementia cawn glywed am yr eglwysi sy'n estyn llaw i bobl gyda dementia.

E-Fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Camu 'Mlaen i'r Dyfodol

Mae hi'n ymddangos ein bod ni'n ôl yn ddiogel yn y capel ar foreau Sul wedi'r clo mawr, a braf o beth yw hynny. Cafwyd diolch a chanmol am gyfraniadau pobl i'n hoedfaon wrth i'r newid mawr a fu dros y degawdau ddod yn gynyddol amlwg. 'Nôl yn yr 1970au, tra byddai Eirian yn gofalu am Sul neu ddau bob mis, roedd aelodau'n gofalu am ambell oedfa a byddai amrywiaeth eang o bregethwyr yn ymweld â ni yn eu tro yn ystod y flwyddyn. Bryd hynny, o fewn taith awr i Efail Isaf roedd yna ddwsinau o weinidogion wedi ymddeol yn byw, a'r rheiny'n barod i ofalu am Suliau ar hyd a lled y rhanbarth. Daeth tro ar fyd. Prin yw'r ymwelwyr erbyn hyn, gydag aelodau'r gynulleidfa yn gofalu am ganran uchel o'r Suliau mewn blwyddyn, a hynny gyda graen ac amrywiaeth arbennig. Mae llawer o feddwl yn y paratodau, a'r ymateb yn galondid cyson.

Wrth gamu ymlaen i'r cyfnod nesaf, bydd tîm bach yn gofalu am drefniadau'r Suliau er mwyn gwneud pethau mor rhwydd ag sy'n bosib. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i Rhiannon Humphreys, Helen Prosser a Heulyn Rees am gynnig o'u hamser fel cydlynwyr yn y cyfnod nesaf, ac yn gobeithio y bydd eraill hefyd yn hapus i ymuno â nhw er mwyn sicrhau bod ein hoedfaon wedi eu cydlynu'n effeithiol ac yn gallu cynnig amrywiaeth i'n hysbrydoli drwy gydol y flwyddyn. Tra'n diolch i'r tri am gynnig eu cymorth, os byddech yn barod i ymuno â'r tîm i gryfhau'r garfan gydlynu hon, mynnwch air gydag un ohonyn nhw'n fuan. Mae 'na wastad groeso i ddwylo niferus!

Geraint Rees



Adloniant gan

Te Parti'r Ysgol Sul

Dydd Sul Mai 8fed
11.15 - 1.00
Neuadd y Pentref

Rhaid archebu lle o flaen llaw
Enwau i Eleri Mai, Manon neu Caroline

Wythnos Cymorth Cristnogol

15fed - 21ain o Fai 2022

Sul 15fed

Gwasanaeth Bore Sul

dan ofal
John Llew, Eleri Mai
a'r Twmiaid
yn dathlu Wythnos
Cymorth Cristnogol

11.00 - Capel y Tabernacl

Sul 15fed

Paned, Clonc a Chacen

Cyfle i gael sgwrs ar ol y
gwasanaeth

12.00 - Yn y Ganolfan

Sul 15fed

Twmiaid Bach

3.30 - 5.00

Twmiaid

5.00-6.30

Themau: Wythnos Cymorth
Cristnogol a NHED yr Urdd

Llun 16eg

Bore Brecwast Cymorth Cristnogol Babi Twm

Dewch i gymdeithasu a
chael brecwast blasus!

10.00 - 11.30
Yn y Ganolfan

Mawrth 17eg

Bore Coffi Wythnos Cymorth Cristnogol

10.30-12.00
Y Ganolfan

Gwener 20fed



7.00
Canolfan Gartholwg

cymorth
cristnogol

Capel Tabernacl, Efail Isaf

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 15-21 Mai

Bydd Apêl WCC eleni yn casglu arian i helpu Zimbabwe, sy'n dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae prisiau bwyd wedi codi'n aruthrol yno oherwydd Rhyfel Putin yn Wcráin. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig yn 2020 (sieciau a throsglwyddiadau banc) ar gyfer ein casgliad ni, ond bydd amlenni yng nghyntedd y capel i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.

Bydd modd cyfrannu drwy gydol mis Mai, a bydd Casgliad Wcráin yn dod i ben dros dro, ac yn aildechrau ym mis Mehefin.

Sieciau: yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi Wythnos Cymorth Cristnogol, at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Trosglwyddiad Banc: gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol

Côd Didoli: 30 - 96 - 72
Rhif Cyfrif: 03607499

**Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**



Ukraine Fundraising Concert

20.05.22, 7PM TOCYN: £12
TICKET:

CANOLFAN GARTH OLWG

GARTH OLWG CENTRE

AM DOCYNNAU CYSYLLTWC A | FOR TICKETS CONTACT
JAYNE.B.ROGERS@RCTCBC.GOV.UK



Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf.
yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy
gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel
www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion er-
byn nos lau at: 07710 237327 / 01443
225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk